**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/01087/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@llyw.cymru

21 Ebrill 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AC,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Ebrill ynghylch Deiseb P-05-958 ynghylch y penderfyniadau diweddar ar raddau Uwch Gyfrannol 2020.

Fel y gwyddoch, ym mis Mawrth, yn dilyn trafodaethau manwl gyda Cymwysterau Cymru a CBAC, cyhoeddais na fyddai cyfres arholiadau'r haf yn mynd yn ei blaen. Nid oedd hwn yn benderfyniad hawdd ond roedd yr ansicrwydd parhaus ynghylch asesiadau yn achosi straen ychwanegol i ddysgwyr, rhieni ac ymarferwyr fel ei gilydd ar adeg a oedd eisoes yn heriol.

Ar 27 Mawrth, ar ôl ystyried y dewisiadau a oedd ar gael yn fanwl, roeddwn yn gallu amlinellu'r dull ar gyfer dysgwyr a oedd i fod i sefyll eu hasesiadau Uwch Gyfrannol a dysgwyr Blwyddyn 10 a fyddai wedi sefyll asesiadau ar unedau TGAU yr haf hwn. Ni fydd gofyn i ddysgwyr a oedd ar fin sefyll eu hasesiadau Uwch Gyfrannol eleni sefyll yr asesiadau hynny yn ddiweddarach. Yn hytrach, byddant yn cael eu trin mewn ffordd debyg i'r rhai sy'n sefyll asesiadau TGAU a Safon Uwch.

Fel y gwyddoch, yng Nghymru nid cymwysterau annibynnol yn unig yw'r lefelau Uwch Gyfrannol, ond maent hefyd yn cyfrannu at gymwysterau Safon Uwch, gan fod asesiadau'r unedau Uwch Gyfrannol yn digwydd ar ddiwedd blwyddyn 12 a'r unedau A2 ym mlwyddyn 13. Eleni, bydd pob dysgwr a oedd ar fin sefyll arholiad yn cael gradd Uwch Gyfrannol ac ni fydd asesiadau Uwch Gyfrannol tan haf 2021. Bydd y radd a ddyfernir yn seiliedig ar ddata asesiadau canolfannau a modelu ystadegol ond ni fydd yn cyfrannu at ganlyniadau asesiadau Safon Uwch yn 2021.

Yn haf 2021, bydd gan ddysgwyr lefel Uwch Gyfrannol ddau ddewis ar gyfer eu dyfarniad Safon Uwch. Gallant naill ai ddewis sefyll asesiadau'r unedau A2 yn unig, a bydd y radd Safon Uwch yn seiliedig ar eu perfformiad yn yr unedau hynny, neu gallant ddewis sefyll asesiadau'r unedau Uwch Gyfrannol ac A2. Os bydd dysgwyr yn dewis sefyll asesiadau'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

unedau Uwch Gyfrannol ochr yn ochr a'r unedau A2, byddant yn cael y radd orau o'r naill neu'r llall o'r llwybrau hyn.

Rwy'n deall bod dysgwyr sy'n llofnodi'r ddeiseb yn meddwl bod hyn yn ddull annheg. Fodd bynnag, rwyf wedi cymryd cyngor manwl am yr amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael gan Gymwysterau Cymru a CBAC. Wrth wneud hynny, rwyf wedi ceisio bod yn gytbwys o ran rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles pob dysgwr, sicrhau nad yw dysgwyr o dan anfantais wrth symud ymlaen i waith neu addysg bellach, a chynnal hygrededd ein system gymwysterau. Yn y cyfnod hwn, nas gwelwyd mo’i fath o’r blaen, nid oes unrhyw benderfyniadau hawdd, ond lle bo'n bosibl rwyf wedi ceisio darparu dewisiadau dilys i ddysgwyr.

Ar gyfer dysgwyr Uwch Gyfrannol mae'r dull hwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael gradd Uwch Gyfrannol i gydnabod eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn; bod y rhai nad ydynt yn mynd ymlaen i gwblhau cwrs astudio Safon Uwch llawn yn derbyn cymhwyster, a bod graddau ar gael i gefnogi ceisiadau UCAS yn y ffordd arferol.

Mae'r broses ar gyfer dyfarnu graddau Safon Uwch yn gymhleth ac yn cynnwys nifer o gydrannau. Fel y cyfryw, ni fydd yr holl wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y dyfarniad Safon Uwch cyflawn ar gael o ganlyniad i'r graddau Uwch Gyfrannol sy’n cael eu cyfrifo yr haf hwn. Mae angen marciau gwirioneddol ar gyfer pob uned Uwch Gyfrannol i ddarparu marc UMS (Graddfa Farcio Unffurf) y gellir wedyn ei gyfuno â'r marciau UMS A2, i gynhyrchu'r radd Safon Uwch. Ni fydd y manylion hyn ar gael ar gyfer graddau a gyfrifir yr haf hwn ac felly ni ellir eu defnyddio i gynhyrchu'r radd Safon Uwch yn haf 2021.

O ganlyniad, ac ar ôl cael cyngor manwl gan y rheoleiddiwr cymwysterau, rwyf wedi penderfynu ar y dull gweithredu a amlinellais uchod, er mwyn cynnal hygrededd a chadernid ein system gymwysterau fel nad yw ymdrechion y dysgwyr yr effeithiwyd arnynt gan y pandemig hwn yn cael eu tanseilio a'u bod yn cael eu gweld mewn ffordd gredadwy o’u rhoi ochr yn ochr â dysgwyr o flynyddoedd eraill.

O ddilyn y dull hwn (oni bai bod dysgwyr yn dewis sefyll asesiadau’r unedau Uwch Gyfrannol ochr yn ochr â’u hunedau A2) at ddiben penderfynu ar ddyfarniad Safon Uwch, gall marciau unedau Uwch Gyfrannol ddeillio o berfformiad gwirioneddol y dysgwyr mewn asesiadau unedau A2. Mae perthynas ystadegol glir rhwng perfformiad yn yr unedau gwahanol hyn ac mae hon yn fethodoleg sydd wedi'i phrofi a'i hen sefydlu ac sydd eisoes yn cael ei defnyddio lle mae myfyrwyr yn methu rhai unedau oherwydd salwch.

Ar ôl trafod â phenaethiaid ac undebau'r athrawon, rwy'n cydnabod bod awydd cryf i gael dysgu yn ôl ar y trywydd arferol yn nhymor yr Hydref, gan dybio bod ysgolion yn agored, ac mae'n bwysig bod myfyrwyr yn gallu symud ymlaen gyda'u hail flwyddyn o astudiaethau Safon Uwch. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r dull hwn yn ein galluogi i'w gyflawni. Wrth wneud penderfyniadau o'r fath, mae hefyd yn bwysig nodi ein bod yn gweithio'n agos â'r sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch i sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais.

Gobeithio bod hyn yn esbonio’r rhesymeg sy’n sail i’r dull gweithredu a ddewisais ar gyfer cymwysterau Uwch Gyfrannol ar ôl ystyriaeth ofalus a dwys.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education